OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy.)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Salop Road, y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Medi 2020* |
| *Yn dod i rym* | *7 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Salop Road, y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 7 Medi 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, bysiau gwasanaeth cyhoeddus a bysiau ysgol neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W.)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A458 Trunk Road (Salop Road, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *1 September 2020* |
| *Coming into force* | *7 September 2020* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A458 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A458 Trunk Road (Salop Road, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 7 September 2020.

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means any vehicle being used by the emergency services, public service buses and school buses or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road in

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gloch ar 7 Medi 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau yn Sir Powys sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r A483 i ganolbwynt y gyffordd sy’n rhoi mynediad i Gartref Nyrsio The Rhallt.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Medi 2020



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

the County of Powys that extends from the centre-point of its junction with the A483 to the centre-point of the junction to access Rhallt Nursing Home;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means intermittent periods commencing at 09:00 hours on 7 September 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 1 September 2020



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (SALOP ROAD, Y TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar lôn tua'r gorllewin yr A458 Salop Road sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A483 i ganolbwynt y gyffordd sy'n rhoi mynediad i Gartref Nyrsio The Rhallt.

Sicrheir mynediad ar gyfer bysiau gwasanaeth cyhoeddus a bysiau ysgol.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de sy'n dymuno ymuno â'r A458 fydd parhau ar yr A483 hyd at Gylchfan The Old Station, mynd tua'r gogledd ar Smithfield Road, tua'r gorllewin ar Mill Lane i ymuno â'r A458 wrth gyffordd Church Bank ac ymlaen i Salop Road, i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y bydd arwyddion traffig yn ei ddangos, yn weithredol o 09:00 o'r gloch ar 7 Medi 2020 tan 16:00 o'r gloch ar 29 Tachwedd 2020.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (SALOP ROAD, WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) from proceeding on the westbound lane of the A458 Salop Road that extends from the centre-point of its junction with the A483 to the centre-point of the junction to access the Rhallt Nursing Home.

Access for public service buses and school buses will be maintained.

The alternative route for southbound vehicles wishing to join the A458 will be to continue on the A483 to the Old Station Roundabout, proceed northbound on Smithfield Road, westbound on Mill Lane to join the A458 at the junction of Church Bank and on to Salop Road, vice versa for northbound traffic.

The temporary prohibition, which will be indicated by traffic signs, is expected to operate from 09:00 hours on 7 Septemeber 2020 until 16:00 hours on the 29 November 2020.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government